**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi,
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

30 Medi 2024

## Maes Awyr Caerdydd

Hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 19 Medi 2024.

Rhestrir yma'r camau gweithredu o'r cyfarfod, ynghyd â'r meysydd y byddem yn croesawu cael gwybodaeth ychwanegol neu'r wybodaeth ddiweddarach yn eu cylch fel y bo'n briodol.

- Gofynnwyd ichi am y 15 o geisiadau am wariant cyfalaf a wnaed gan y maes awyr, sy'n amrywio mewn gwerth o £50,000 i £1 filiwn yr un, sef cyfanswm o £4.6 miliwn, yn ogystal â thri chais dros £1 filiwn yr un, sef cyfanswm o £13.6 miliwn. Gwnaethoch gytuno i ddarparu crynodeb o bob un o'r taliadau hyn a'r rhesymau dros eu gwneud. Edrychwn ymlaen at gael hwn, a gofynnwn am i gymaint o wybodaeth â phosibl gael ei darparu, tra'n cydnabod yr angen am gyfrinachedd masnachol.

- Mewn perthynas â bwrdd newydd Holdco, gwnaethoch ymrwymo i ddarparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu eu perfformiad. Dylai hyn gynnwys mesurau penodol a ddefnyddir i fesur eu perfformiad a chadarnhad ynghylch a fydd y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd.

Ar bwynt mwy cyffredinol, hoffai'r Pwyllgor dderbyn eich cynnig i ymddangos ger ein bron ar ôl i broses yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddod i ben, i archwilio ymhellach gwestiynau'n ymwneud â buddsoddiad arfaethedig Llywodraeth Cymru yn y maes awyr. Bydd tîm clercio'r Pwyllgor yn cysylltu â'r swyddogion perthnasol yn Llywodraeth Cymru i drefnu dyddiad addas ar gyfer y sesiwn hon.

Byddem yn croesawu cael eich ymateb erbyn 21 Hydref 2024.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.